**Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd NWR 04-01(min)**

**Cofnodion**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener 26 Hydref 2001 |
| **Amser:** | 10.00am hyd 1.00pm |
| **Lleoliad:** | Neuadd Gyhoeddus, Llanrhaeadr-ym-Mochnant |

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Eleanor Burnham, Cadeirydd | Gogledd Cymru |
| Alison Halford | Delyn |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Gareth Jones | Conwy |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Alun Pugh | Gorllewin Clwyd |
| Rod Richards | Gogledd Cymru |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Rhodri Morgan, Prif Weinidog Cymru | Gorllewin Caerdydd |
| Brain Gibbons, Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Aberafan |
| *Swyddogion* | |
| Steve Milsom | Adran Polisi Gofal Cymdeithasol |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc y Pwyllgor |
| Howell Rees | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Cyflwyniad ac ymddiheuriadau**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod a diolchodd i Lanrhaeadr-ym-Mochnant am ei letygarwch. Roedd ymddiheuriadau wedi dod i law oddi wrth Dafydd Elis Thomas, John Marek, Janet Ryder, Dafydd Wigley ac Ieuan Wyn Jones.

1.2 Eglurodd y Cadeirydd fod dewis Llanrhaeadr-ym-Mochnant fel lleoliad ar gyfer y cyfarfod yn adlewyrchu ei dymuniad hi i fynd â’r Pwyllgor i gymunedau llai i ganiatáu i drigolion lleol weld a chymryd rhan yng ngwaith y Cynulliad.

**Eitem 2: Cofnodion ac adrodd yn ôl o’r cyfarfod blaenorol** - NWR 03-01(min); NWR 04-01(p1)

2.1 Yn dilyn y cyfarfod diwethaf ar 6 Gorffennaf, roedd y Cadeirydd blaenorol wedi ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn crynhoi prif bwyntiau’r drafodaeth ar y Strategaeth Dai i Gymru. Roedd copi o ateb y Gweinidog wedi ei anfon i’r Aelodau ac i’r rheiny oedd wedi codi pwyntiau penodol yn y cyfarfod. Rhoddwyd croeso i’r ateb cynhwysfawr gan y Gweinidog.

2.2 Gofynnodd Mair Williams, Cyngor Tref Caernarfon, am i gofnodion y cyfarfodydd gael eu hanfon at gynghorau cymuned.

2.3 Cymeradwyodd y pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol.

**Eitem 3: Strategaeth i Bobl Hyn yng Nghymru**

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Brian Gibbons a Steve Milsom i’r cyfarfod. Rhoddodd Brian Gibbons gyflwyniad yn egluro cefndir datblygu strategaeth ar gyfer pobl hn. Gwelir copi ohono yn atodiad 1.

3.2 Yna gwahoddodd y Cadeirydd gyfraniadau gan y cyhoedd.

3.3 Dywedodd Godfrey North o Fethesda fod awdurdodau lleol yn cael eu gorfodi i drosglwyddo cartrefi hen bobl i’r sector preifat. Roedd cartrefi awdurdodau lleol yn ddrud i’w rhedeg ac roedd angen gwario ar lawer ohonynt i ddod â hwy i safon dderbyniol.

- Dywedodd Brian Gibbons fod gormod o leoedd mewn cartrefi nyrsio ar gael mewn rhai ardaloedd, tra bod prinder mewn ardaloedd eraill. Roedd gormodedd o ddarpariaeth yn creu problemau dichonoldeb ac roedd yn bwysig cyfatebu’r ddarpariaeth gofal ym mhob ardal i anghenion y boblogaeth leol. Roedd angen dull partneriaeth i ddatblygu perthynas gyson a sefydlog â darparwyr gofal preifat. Dylai dewis o ddarpariaeth a chefnogaeth hefyd fod ar gael ar gyfer pobl hyn oedd yn dymuno aros yn eu cartrefi eu hunain.

3.4 Dywedodd Douglas Reid, Gofalwyr Sir Drefaldwyn, fod angen i’r strategaeth fynd i’r afael ag anghenion gofalwyr os oedd yr henoed yn mynd i allu parhau i fyw gartref. Nid oedd awdurdodau lleol yn aml yn llwyddo i ddod i gysylltiad â mudiadau gofalwyr a gofynnodd sut y gellid mynd i’r afael â hyn.

- Dywedodd Brian Gibbons fod y Cynulliad wedi lansio’r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr a bod £3 miliwn y flwyddyn ar gael i helpu gofalwyr a darparu gofal seibiant. Roedd

peirianwaith newydd ar gyfer gwneud asesiadau cyfannol o anghenion unigolion yn cael ei ddatblygu.

3.5 Gofynnodd George Johnson, Age Concern, Canol Gogledd Cymru, a fyddai’r Cynulliad yn ymateb yn gadarnhaol pe byddai’r broses ymgynghori yn dangos bod cefnogaeth i ofal personol am ddim i’r henoed. Roedd Margaret Miller, Age Concern Wrecsam, hefyd yn pryderu am ddarparu gofal personol am ddim a gofynnodd beth fyddai’r Cynulliad yn ei wneud.

- Dywedodd Brian Gibbons fod y Cynulliad eisoes wedi ymrwymo i ddarparu gofal nyrsio am ddim i bobl mewn cartrefi nyrsio. Byddai cwestiwn gofal personol am ddim yn cael ei ystyried yn y ddadl yn y Pwyllgor a’r Cyfarfod llawn. Byddai’n costio tua £40 miliwn yng Nghymru a byddai rhwng 3,000 a 4,000 o bobl yn elwa ohono. Roedd y Cynulliad o blaid yr egwyddor o ddarparu gofal personol am ddim ond roedd angen ystyried y gost yn erbyn blaenoriaethau eraill i'r henoed sy'n cystadlu yn ei herbyn, yn cynnwys gofal yn y gymuned a gwasanaethau ysbyty.

3.6 Dywedodd Barry Latham, Cymdeithas Cartrefi Nyrsio a Phreswyl Gogledd Cymru, fod cost gofal nyrsio mewn cartrefi nyrsio yn cael ei thalu gan y Cynulliad ond nad oedd hynny’n cynnwys costau llawer o eitemau traul.

- Dywedodd Brian Gibbons y byddai gofal nyrsio yn cael ei ddarparu yn y dyfodol ar sail asesiad o angen. Os mai lleoliad mewn cartref nyrsio oedd fwyaf addas yna byddai costau nyrsio yn cael eu talu. Dywedodd Steve Milsom fod y Cynulliad yn croesawu barn y sector annibynnol a bod sylwadau Mr Latham ar eitemau traul wedi cael eu nodi.

3.7 Dywedodd Bryn Williams, Prif Swyddog, Age Concern, Gogledd Cymru, fod y system bresennol o ofalu am yr henoed yn annigonol mewn nifer o ffyrdd:

- roedd y gyfradd iselder clinigol ymhlith y rhai oedd mewn gofal yn llawer uwch nag ymhlith y rheiny oedd yn derbyn gofal gartref;
- roedd y rhan fwyaf o bobl hyn yn mynd i mewn i gartrefi nyrsio o’r ysbyty ac yn aml nid oeddynt yn cael unrhyw lais yn y broses o ddewis cartref;
- roedd cefnogaeth annigonol yn ei gwneud yn anodd i’r henoed aros yn eu cartrefi eu hunain ac roedd cyplau’n cael eu gwahanu’n aml gan y system;
- roedd cost a faint o ofal mewn cartrefi nyrsio oedd ar gael hefyd yn achosi pryder.

Sefydlodd Deddf Gofal Cymunedol y GIG yr egwyddor y dylai pobl y mae angen gofal arnynt allu byw gartref neu yn eu cymuned eu hunain. Os oedd hynny’n mynd i gael ei wireddu roedd yn rhaid datblygu strategaeth tymor hir i gyflenwi system gofal ymatebol a hyblyg ar gyfer y cenedlaethau i ddod.

- Dywedodd Brian Gibbons fod safonau yn amrywio rhwng gwahanol gartrefi nyrsio. Roedd y Cynulliad yn mynd i’r afael â hyn drwy sefydlu’r Arolygiaeth Safonau Gofal a fyddai’n help i godi safonau. Roedd angen gwella hyfforddiant a chymwysterau staff gofal ond roedd y sector

annibynnol, yn enwedig, yn aml yn ei chael yn anodd rhoi digon o adnoddau i hynny. Roedd angen datblygu perthynas bartneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat i helpu i ddarparu’r sefydlogrwydd yr oedd ei angen ar y naill a'r llall i gynllunio a buddsoddi.

3.8 Yna gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau gan Aelodau’r Pwyllgor a gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol:

- dim ond canran gymharol fach o’r henoed oedd yn dibynnu ar wasanaethau gofal. Dylai’r ymgynghoriad ystyried ystod eang o faterion sy’n effeithio ar yr henoed yn cynnwys cyfraith a threfn a pholisi trethi;
- roedd angen i’r Cynulliad roi cyfeiriad i awdurdodau lleol ar dai a materion diogelwch personol. Gallai cynlluniau tai integredig gynorthwyo’r henoed i barhau i deimlo eu bod yn rhan o’r gymuned. Yn aml iawn nid oedd pobl yn cael cefnogaeth gan eu teulu estynedig ac roedd yn bwysig datblygu rhwydweithiau. Dylai dysgu gydol oes hefyd fod yn rhan o’r strategaeth;
- roedd yn bwysig cynnal safonau uchel mewn cartrefi nyrsio. Roedd problemau yngln â safonau yn aml yn codi mewn perthynas â’r amgylchedd ffisegol ar gyfer darparu gofalu yn hytrach na materion ansawdd?. Gallai rhai cartrefi nyrsio gael eu gorfodi allan o fusnes ac anogwyd y Dirprwy Weinidog i gymryd y ffactorau hyn i ystyriaeth wrth ystyried yr ymatebion i’r ymgynghoroiad ar safonau gofal;
- roedd gan bobl hyn sgiliau a phrofiad i’w rhoi i’w cymunedau ond roeddynt yn aml yn teimlo nad oeddynt yn perthyn. Roedd angen chwalu’r rhwystrau oedd yn eu hatal rhag cyfrannu;
- roedd angen mynd i’r afael â’r unigrwydd a’r iselder yr oedd llawer o henoed sengl yn ei wynebu. Roedd cyplau yn aml yn cael eu gwahanu gan y system gofal pan na allent mwyach ymdopi yn eu cartref eu hunain. Roedd angen cymorth arnynt cyn i’r problemau fynd yn rhy ddifrifol i’w goresgyn. Roedd pobl yn aml yn rhy falch i ofyn am help ond roedd yn bwysig i awdurdodau lleol eu cynorthwyo i aros yn eu cartrefi eu hunain. Er ei bod fel rheol yn gost effeithiol i gefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain roedd eu hanghenion yn fwy pan oedd yn rhaid iddynt yn y pen draw symud i ofal preswyl felly dylai’r system ganiatáu hyblygrwydd gyda chyllid;
- rhoddwyd canmoliaeth i waith Gofal a Thrwsio yn cynorthwyo pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain. Dylid cydnabod yr ymdrechion yr oedd cartrefi gofal annibynnol yn eu gwneud i wella safonau a dylai awdurdodau lleol dalu pris teg am y gwasanaethau a ddarperid;
- câi Gogledd Cymru ei hystyried yn aml yn ardal lewyrchus ond mynegwyd pryder y gallai cynigion yn adroddiad Townsend weld adnoddau ar gyfer gofal iechyd yn cael eu hailddosbarthu i ardaloedd eraill yng Nghymru. Roedd angen meddwl yn greadigol wrth lunio’r strategaeth ar ystod eang o faterion yn cynnwys cludiant, triniaeth traed, deintyddiaeth, y clefyd siwgwr a phroblemau gwlychu;
- Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith fod adroddiad Townsend yn cynnig ailddosbarthu dyraniadau’r awdurdodau iechyd. Fodd bynnag, gan fod y gyllideb iechyd yn tyfu byddai pob awdurdod yn cael adnoddau ychwanegol gyda chanran uwch yn mynd i’r ardaloedd sydd â’r anghenion mwyaf.

3.9 Gwahoddodd y Cadeirydd gyfraniadau pellach o’r llawr.

3.10 Dywedodd Bob Barton, cynghorydd cymuned, fod angen meddwl am gludiant mewn ffordd ddi-fwlch. Roedd costau cludiant a'r gallu i ddefnyddio cludiant cyhoeddus yn ei gwneud yn anodd ymweld â pherthnasau oedrannus oedd mewn ysbyty am gyfnod hir. Gellid dysgu gwersi oddi wrth gynlluniau oedd yn cael eu gweithredu gan ysbytai yn ne ddwyrain Lloegr lle y darperid gwasanaethau bws ar hyd taith gylchol a lle'r oedd teithwyr yn talu ffi ar gyfradd wastad. Gellid defnyddio cyllid Amcan 1 i gyllido cynlluniau tebyg yng Nghymru. Gallai taliadau parcio ceir mewn ysbytai fod yn ddrud hefyd os oedd yn rhaid ymweld yn ddyddiol.

3.11 Dywedodd Mair Williams, Cyngor Tref Caernarfon, fod nyrsys ardal a gofalwyr oedd yn ymweld â phobl oedrannus yn eu cartrefi yn wynebu problemau pan na chaent roi tabledi neu feddyginiaeth sylfaenol arall.

- Dywedodd Brian Gibbons fod cryn amrywiaeth mewn ymarfer drwy Gymru ac mewn rhai ardaloedd roedd gan ofalwyr hawl i roi meddyginiaeth. Byddai'r Cyngor Gwaith Cymdeithasol, a fyddai'n gyfrifol am reoleiddio gofalwyr, yn sefydlu lefel sylfaenol o hyfforddiant a chymwyster. Dylai hynny gynnwys gweinyddu meddyginiaeth syml a mynd i'r afael ag anghysonderau ar draws Cymru.

3.12 Pwysleisiodd Jim Jones, Cyngor Sir y Fflint a Phensiynwyr Cymru, yr angen i'r strategaeth gael ei chyllido'n iawn. Roedd angen cydweithrediad a phartneriaeth rhwng awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol i ddarparu gwasanaethau hyblyg, yn enwedig mewn perthynas â chludiant.

3.13 Dywedodd Glenys Jones, Age Concern Llanidloes, ei bod yn amhosibl gwahaniaethu rhwng gofal nyrsio a gofal personol. Dylai cost gofal gael ei thalu heb wahaniaethu rhyngddynt o gwbl.

- Dywedodd Brian Gibbons y dylai'r peirianwaith newydd oedd yn cael ei sefydlu i asesu anghenion mewn dull cyfannol ddileu dadleuon dibwrpas yngln â diffiniadau.

3.14 Dywedodd David St George, Celtic Dimensions, fod cyswllt amlwg rhwng deiet ac iechyd. Roedd ymgyrchoedd wedi eu hanelu at rannau eraill o'r boblogaeth eisoes wedi eu sefydlu a dylid datblygu cynlluniau tebyg oedd yn canolbwyntio ar yr henoed.

3.15 Dywedodd David Lloyd, Cyngor Cymuned Glyn Traearn, nad oedd yr Asiantaeth Budd-daliadau yn helpu i sicrhau bod yr henoed yn hawlio'r holl fudd-daliadau yr oedd ganddynt hawl iddynt. Roedd y ffurflenni cais ar gyfer budd-dâl tai ac ad-daliad rhent yn gymhleth ac roedd angen help ar bobl i'w llenwi.

- Cytunodd Brian Gibbons fod tlodi yn rhwystro pobl rhag byw bywyd normal ac nad oedd llawer o'r henoed yn hawlio'r holl fudd-daliadau yr oedd ganddynt hawl iddynt. Roedd ymchwil yn cael ei gomisiynu i incwm a gallu'r henoed i fanteisio ar fudd-daliadau. Roedd angen datblygu syniadau dyfeisgar yngln â rhyddhau'r cyfalaf oedd wedi ei glymu mewn asedau.

3.16 Dywedodd Mr E Thomas, Sefydliad Cludiant Cymunedol Cymru, fod arolwg diweddar wedi darganfod bod 70% o amser teithio grwpiau cludiant cymunedol yn ymwneud â siwrneiau i ac o gyfleusterau'r gwasanaeth iechyd. Er hynny nid oedd grwpiau cludiant cymunedol yn derbyn unrhyw gyllid craidd oddi wrth y gwasanaeth iechyd. Soniodd wrth y pwyllgor am gynllun yng Nghaerwrangon lle yr oedd y gwasanaeth iechyd yn cyflogi swyddogion cludiant cymunedol.

3.17 Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a dywedodd os oedd unrhyw bwyntiau eraill yr oedd pobl yn dymuno eu codi y dylent ysgrifennu at Aelodau’r Cynulliad.

**Eitem 4: Prif Weinidog Cymru**

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Brif Weinidog Cymru i’r cyfarfod. Dywedodd y Prif Weinidog ei fod yn falch o fod yn Llanrhaeadr-ym-Mochnant. Dywedodd fod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y diwrnod hwnnw, yn cyhoeddi cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau canser yng Nghymru. Byddai Gogledd Cymru yn derbyn £2 miliwn i wella gwasanaethau ac offer canser.

4.2 Roedd economi’r ardal o amgylch Llanrhaeadr-ym-Mochnant yn dibynnu ar amaethyddiaeth a thwristiaeth ac roedd wedi dioddef yn ddrwg oherwydd clwy’r traed a’r genau. Roedd arwyddion fod twristiaid yn dechrau dod yn ôl ond roedd niferoedd yr ymwelwyr o’r Unol Daleithiau yn is a gallai’r golled i economi Cymru fod yn sylweddol. Roedd y diwydiant amaethyddol yn dal i wynebu problemau sylweddol wrth iddo geisio goresgyn effeithiau clwy’r traed a’r genau.

4.3 Pwnc dadleuol arall yn lleol oedd ffermydd gwynt. Roeddynt yn cynhyrchu ynni glân ond caent effaith ar yr amgylchedd. Roedd angen gwneud penderfyniadau mewn cyd-destun cenedlaethol tra’n ystyried barn pobl leol.

4.4 Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau o’r llawr.

4.5 Dywedodd Rhiannon Efans o Fethesda nad pobl oedrannus oedd yr unig rai yr oedd angen gofal arnynt yn y gymuned. Roedd angen cefnogaeth debyg ar bobl o bob oedran oedd wedi cael strôc. Mynegodd bryder fod cyllid drwy’r Gronfa Byw’n Annibynnol yn cael ei hawlio gan asiantaethau ac nad oedd yn cyrraedd y bobl yr oedd ei angen arnynt.

4.6 Cododd Les Day, Cyngor Cymuned Bangor, bryderon yngln ag urddas ac ansawdd bywyd pobl oedd yn derbyn gofal yn y gymuned. Nid oedd pobl yn aml yn gallu codi tan yn hwyr yn y bore ac roeddynt yn cael eu rhoi yn y gwely yn gynnar gyda’r nos. Roeddynt yn aml ar eu pen eu hunain ac yn unig am gyfnodau hir. Dywedodd Mrs Butler, Cyngor Cymuned Bangor, mai pryderon sylfaenol iawn, megis cadw eu cartrefi yn lân, oedd gan yr henoed sy'n derbyn gofal yn aml.

- Dywedodd Prif Weinidog Cymru ei bod weithiau yn anodd gweld ymhle yr oedd cyfrifoldeb y GIG i ofalu yn gorffen a ble yr oedd gofal gan yr awdurdod lleol yn dechrau. Roedd yn ymwybodol o lawer o’r materion a godwyd o brofiad personol ac roedd yn deall dymuniad llawer

o’r henoed i aros yn eu cartrefi eu hunain. Roedd yn bwysig bod ystod hyblyg o ddewisiadau ar gael i adlewyrchu angen, y gallu i dalu a dymuniadau’r unigolion dan sylw.

4.7 Dywedodd Ann Roberts fod hosbisau yn aml yn darparu gwasanaethau a ddylai gael eu darparu gan y GIG. Gofynnodd a oedd gan y Cynulliad strategaeth ar ddarparu gofal lliniarol.

- Cydnabyddai Prif Weinidog Cymru bwysigrwydd y sector hosbisau a’r angen i gefnogi gofal lliniarol.

4.8 Dywedodd Joyce Dudley fod tai gwarchod yn cynnig dewis da rhwng byw gartref a symud i mewn i ofal. Dylai’r Cynulliad annog awdurdodau lleol i ddarparu rhagor o dai gwarchod.

- Cytunai Prif Weinidog Cymru y dylai tai gwarchod fod yn rhan o’r rhestr o ddewisiadau oedd ar gael i’r henoed.

4.9 Gofynnodd Jim Downey o Ruthun sut y gallai’r Cynulliad gynorthwyo pobl yr oedd y llifogydd diweddar yn y dref wedi effeithio arnynt ond oedd heb yswiriant. Roedd llifogydd y llynedd wedi effeithio ar lawer ohonynt.

- Dywedodd Prif Weinidog Cymru fod Cyngor Sir Ddinbych ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweithio tuag at gael ateb parhaol i’r broblem llifogydd a fyddai’n golygu troi cwrs yr afon.

4.10 Dywedodd Bob Barton fod cymdeithasau tai yn gweld rhagor o leoedd gwag yn eu tai gwarchod wrth i ragor o bobl dderbyn gofal yn eu cartrefi eu hunain. Teimlai ei bod yn bwysig cynorthwyo’r henoed i symud i systemau gwresogi rhatach a mwy effeithiol a thynnodd sylw at y ffaith mai dim ond mewn ardaloedd oedd â nwy pibell yr oedd y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni yn y Cartref (Home Energy Efficiency Scheme - HEES) ar gael. Awgrymodd y gellir defnyddio cyllid Amcan 1 i ariannu cynlluniau ynni gwyrdd.

- Dywedodd Prif Weinidog Cymru y byddai’n ymchwilio i’r anghysondeb mai dim ond mewn ardaloedd oedd â nwy pibell yr oedd HEES ar gael. Roedd gwneuthurwyr paneli solar wedi codi mater cymorth grant ar gyfer projectau ynni gwyrdd gydag ef.

4.11 Dywedodd John Arthur Jones, Gwerth Gorau’r DU Cyf, fod y wybodaeth yn y daflen ar HEES yn anodd iawn i’w deall. Roedd Gofal a Thrwsio yn costio tua £2.6 miliwn y flwyddyn i bwrs y wlad i’w redeg. Roedd y gost ar Ynys Fôn tua £90,000 a dywedodd y gallai ei gwmni ddarparu’r un gwasanaeth am swm sylweddol is. Dywedodd hefyd fod awdurdodau lleol yn anwybyddu’r rheolau yn ymwneud â diystyru’r £6,000 cyntaf o gynilion ymgeisydd mewn perthynas â grantiau gwella tai dewisol.

- Gwahoddodd Prif Weinidog Cymru Mr Jones i ysgrifennu ato a dywedodd y byddai’n ymateb yn fanwl.

4.12 Dywedodd Gwyneth Kensler, Cyngor Tref Dinbych, nad oedd arian Amcan 1 yn cael ei wario'n ddigon cyflym oherwydd biwrocratiaeth a gofynnodd am sicrwydd y byddai'r holl arian oedd ar gael yn cael ei ddefnyddio. Gofynnodd hefyd a oedd cyfrifon ac adroddiadau blynyddol Awdurdod Datblygu Cymru ar gael i'r cyhoedd.

- Dywedodd Prif Weinidog Cymru ei fod yn hyderus y byddai'r holl arian oedd ar gael yn cael ei wario. Roedd gofynion biwrocrataidd rhaglen Amcan 1 yn adlewyrchu gofynion y Comisiwn Ewropeaidd. Os oedd gan Mrs Kensler unrhyw bryderon penodol fe'i gwahoddodd i ysgrifennu ato amdanynt. Cadarnhaodd fod cyfrifon ac adroddiadau blynyddol Awdurdod Datblygu Cymru ar gael i'r cyhoedd a'u bod yn cael eu cyhoeddi fel rheol ym mis Gorffennaf.

4.13 Roedd Mario Kreft, Cymdeithas Cartrefi Nyrsio a Phreswyl Gogledd Cymru, yn croesawu'r ffaith bod strategaeth yn cael ei datblygu ar gyfer yr henoed a bod y sector annibynnol yn cael llais yn hynny. Roedd y sector yn darparu 25,000 o welyau mewn 1,900 o sefydliadau yng Nghymru ac roedd, felly, yn adnodd pwysig. Anogodd well integreiddio rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat i hyrwyddo nodweddion gorau'r sector annibynnol.

- Cytunai Prif Weinidog Cymru fod gan y sector preifat rôl bwysig i'w chwarae. Dylid ystyried darparu gofal fel dilyniant di-dor o wasanaethau a mater o ddewis personol ac asesu clinigol oedd penderfynu ar y ddarpariaeth orau ar gyfer unrhyw unigolyn.

4.14 Croesawai Dewi Davies, Twristiaeth Gogledd Cymru, y gefnogaeth oedd wedi ei rhoi i fusnesau twristiaeth yr effeithiwyd arnynt gan glwy'r traed a'r genau. Yn dilyn y digwyddiadau ar 11 Medi roedd nifer y twristiaid Americanaidd oedd yn ymweld â Chymru wedi gostwng. Gofynnodd a ellid cymryd hynny i ystyriaeth pan fyddai iawndal yn cael ei dalu. Croesawai'r ffaith bod y cyffyrdd ar yr A55 wedi cael eu rhifo a gofynnodd am amseru cau lonydd ar gyfer gwaith ar y ffyrdd i osgoi cyfnod brig yr haf a gwyliau banc. Roedd hefyd yn poeni bod arwyddion ffyrdd electronig weithiau yn dangos negeseuon oedd yn troi ymwelwyr i ffwrdd, megis eu cynghori i gadw unrhyw beth gwerthfawr yn ddiogel dan glo.

- Dywedodd Prif Weinidog Cymru fod y pecyn cymorth wedi ei ddylunio'n benodol i helpu busnesau yr effeithiwyd arnynt gan glwy'r traed a'r genau yn hytrach na ffactorau eraill. Cytunai y gallai'r negeseuon y cyfeiriwyd atynt ar arwyddion electronig ar yr A55 roi'r argraff anghywir a dywedodd y byddai'n codi'r mater gyda Sue Essex. Ar fater cau lonydd, dywedodd fod gweithfeydd ar y ffyrdd yn amhoblogaidd ar unrhyw adeg ond y byddai'n codi'r mater gyda Sue Essex ac yn gofyn iddi ysgrifennu at Mr Davies yngln â'r mater hwn.

4.15 Dywedodd Frances Hunt, o Lanrhaeadr-ym-Mochnant, fod clwy'r traed a'r genau wedi cael effaith sylweddol ar yr ardal a'i fod wedi achosi llawer o straen ymhlith teuluoedd ffermio. Anogodd y Cynulliad hefyd i sefydlu mesurau i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran.

- Cytunai Prif Weinidog Cymru fod y gymuned ffermio yn wynebu problemau sylweddol ar ôl clwy'r traed a'r genau. Roedd allforio cig oen a chig eidion wedi ei wahardd o hyd ond roedd yr

archfarchnadoedd wedi gwneud llawer o waith da yn hyrwyddo’r farchnad gartref ar gyfer oen mynydd Cymreig.

4.16 Dywedodd Helen Owen, Age Concern, fod pobl yn aml yn troi at y mudiad i ofyn am help i hawlio budd-daliadau, yn enwedig lwfans gweini. O ganlyniad, roedd Age Concern wedi datblygu rhywfaint o arbenigedd yn y maes hwn.

- Dywedodd Prif Weinidog Cymru fod Age Concern yn gwneud llawer o waith da i annog pobl i hawlio budd-daliadau. Cytunai ei bod yn bwysig cynorthwyo’r henoed i hawlio’r holl fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt.

4.17 Dywedodd Dorothy Bullet fod y ffurflenni cais ar gyfer Lwfans Byw i’r Anabl yn anodd iawn i’w deall a gofynnodd a ellid eu symleiddio.

- Cytunai Prif Weinidog Cymru fod y ffurflenni yn gymhleth. Yr Adran Nawdd Cymdeithasol oedd yn gyfrifol am y cynllun. Roedd Aelodau Seneddol ac Aelodau’r Cynulliad yn ymwybodol o’r anawsterau gan fod pobl yn mynd â nifer o broblemau yn ymwneud â’r cynllun i’w cymorthfeydd.

*Pwyntiau gweithredu*

4.18 Y negeseuon a arddangosir ar arwyddion pontydd yr A55 i’w dwyn i sylw Sue Essex – **Prif Weinidog Cymru**

4.19 Mater cau lonydd ar yr A55 yn ystod tymor prysura’r haf i’w godi gyda Sue Essex ac anfon ateb – **Prif Weinidog Cymru**

4.20 Diolchodd y Cadeirydd i Brif Weinidog Cymru a dywedodd y byddai’r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Gwener 30 Tachwedd yn Llandrillo, Sir Ddinbych pan mai’r iaith Gymraeg fyddai’r pwnc trafod.

**Yr Ysgrifenyddiaeth** **Hydref 2001**

---

**Atodiad 1**

**STRATEGAETH AR GYFER POBL HYN**

**Cyflwyniad gan Brian Gibbons AC**

Rwyf wrth fy modd fod cymaint o bobl wedi rhoi eu hamser a thrafferthu i ddod i’r cyfarfod heddiw.

Mae’n bwysig iawn fod cymaint ag sy’n bosibl o bobl yn cael y cyfle i gyfrannu at y drafodaeth hon a chynorthwyo i lunio’r Strategaeth ar gyfer Pobl Hyn yng Nghymru.

Mae datblygu’r Strategaeth hon yn fenter bwysig iawn gan y Cynulliad, gan y bydd yn caniatáu i ni ganolbwyntio polisïau ar anghenion pobl hyn ac ymateb a chynllunio mewn modd rhagweithiol ar gyfer y newidiadau mewn patrymau oedran. Bydd yn bwysig bod y Strategaeth yn cymryd i ystyriaeth yr amrywiaeth anferth ymysg pobl yn y ffordd y maent yn teimlo, ac yn ymateb i heneiddio. Mae llawer o 'henoed ifanc' yn gymharol heini ac, yn gwbl briodol, yn eithriadol o annibynnol. Mae angen i eraill, yn enwedig y rheiny sy’n byw ymhell y tu hwnt i 80 oed mewn niferoedd cynyddol, gael sicrwydd bod gwasanaethau iechyd a gofal o safon uchel a chefnogaeth ar gael i fodloni eu hanghenion fel y’u hasesir.

Rydym i gyd yn ymwybodol iawn fod y nifer o bobl hyn yn sylweddol uwch nag ar unrhyw adeg yn ein hanes. Mae pobl yn byw’n hirach ac maent yn iachach. Mae hyn yn rhywbeth i ymfalchïo ynddo a'i ddathlu. Un o’r prif gyfleon sy’n ein hwynebu er hynny y ganrif hon yw ymateb i anghenion poblogaeth sy’n heneiddio a harneisio’r cyfraniadau y gall, ac y mae, yr henoed yn eu gwneud tuag at gymdeithas. Mae’r henoed yn disgwyl llawer mwy oddi wrth fywyd a’r gwasanaethau y maent yn eu defnyddio. Maent eisiau cael mynegi eu barn yn well am y penderfyniadau sy’n effeithio arnynt hwy ac maent eisiau cyfle i gyfrannu i’w cymunedau.

I gwrdd â’r her hon mae’n rhaid i ni gynllunio ar gyfer ein dyfodol ni i gyd, nid dim ond ar gyfer y genhedlaeth hon o bobl hn. Mae angen strategaethau newydd arnom er mwyn ymwneud â’r henoed a darparu gwell gwasanaethau. Mae’r Cynulliad Cenedlaethol nawr eisiau datblygu ei Strategaeth ei hun ar gyfer yr henoed sydd wedi ei theilwra i amgylchiadau ac anghenion Cymru. Dyna pam fod y sesiwn hwn o’r Pwyllgor Rhanbarth wedi ei drefnu a pham y mae angen eich help chi arnom heddiw i ddynodi’r prif faterion a llunio rhai o’r atebion.

Cylch gwaith y Strategaeth yw:

> "Y dylai’r henoed yng Nghymru fod â’r hawl i fyw’n annibynnol a chydag urddas. I’w cynorthwyo i wireddu hynny, byddwn yn llunio strategaeth i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd amserol ac addas, i hyrwyddo eu hiechyd a’u lles gan eu galluogi i wneud y gorau o’u hannibyniaeth, eu potensial a’u cyfranogiad."

Mae iddi 7 thema allweddol, y gellir eu defnyddio fel strwythur ar gyfer ein trafodaeth heddiw:

- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- hybu iechyd a bywyd iach
- tai a gwasanaethau eraill llywodraeth leol
- cynhwysiant cymdeithasol gan gynnwys gwahaniaethu ar sail oedran
- cludiant, mynediad, symudedd a byw yn y wlad
- dysgu gydol oes a chyflogaeth
- materion nad ydynt wedi eu datganoli yn cynnwys troseddu, budd-daliadau, pensiynau_

Bydd yn bwysig i'r Strategaeth beidio ag ystyried pob un o'r materion hyn allan o gyswllt â'i gilydd – nid yw bywydau pobl wedi eu dosrannu yn dwt yn y modd hwnnw. Bydd angen i'r Strategaeth felly fabwysiadu dull trawsbynciol a mynd i'r afael â'r cwestiynau allweddol hyn:

Beth yw'r prif broblemau sy'n wynebu'r henoed: mae eu prif bryderon yn aml yn ymwneud â cholli rheolaeth a sicrwydd

Pa faterion neu achosion sy'n arwain at ddirywiad neu anabledd ym mywydau'r henoed?

Pan fydd pethau'n mynd o'u lle, pa systemau sydd ar gael i ddarparu cefnogaeth?

Mae'n rhaid i ni gynllunio ar gyfer ein dyfodol ni i gyd, nid yn unig ar gyfer y genhedlaeth bresennol o bobl hyn. Mae angen strategaethau newydd arnom er mwyn ymwneud â'r henoed a darparu gwell gwasanaethau.

Bydd y Strategaeth yn cael ei seilio ar dystiolaeth, gan ddefnyddio'r ymchwil sydd ar gael ar fywydau pobl hyn. Rydym eisiau i'r Strategaeth hefyd fod yn seiliedig ar realiti bywyd i bobl hyn. Rydym felly yn mynd ati i ymgynghori'n eang ar y Strategaeth er mwyn sicrhau ein bod yn clywed ystod mor eang â phosibl o sylwadau – mae hyn wedi cynnwys 27 o grwpiau ffocws gyda phobl hn, cyfarfodydd gyda sefydliadau pensiynwyr, ymgynghori ar bapur a chynhadledd ar gyfer Cymru gyfan, gan orffen gyda sesiynau ym Mhwyllgorau Rhanbarth y Cynulliad ar 26 Hydref a 2 Tachwedd. Mae'r Strategaeth yn gyfle hanfodol i sicrhau bod y Cynulliad yn rhagweithiol yn y modd y mae'n cynllunio ar gyfer y newidiadau ym mhatrymau oedran ein poblogaeth ac wrth fynd i'r afael yn fwy uniongyrchol nawr ag anghenion a dymuniadau Pobl Hn yng Nghymru.

Rydym yn bwriadu i'r Strategaeth drafft fod wedi cael ei chwblhau erbyn mis Mawrth 2002 fel y gall gael ei hystyried gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng ngwanwyn 2002 ac yna gael ei chyhoeddi ar gyfer cwblhau'r ymgynghori erbyn haf 2002. Mae wrth gwrs yn hanfodol bod y Strategaeth yn arwain yn bendant at weithredu a bydd cynllun gweithredu hefyd yn cael ei ddatblygu i sicrhau bod hynny'n digwydd.

Rwy'n gobeithio y byddwch yn mwynhau'r drafodaeth heddiw ac y byddwch yn medru cymryd rhan weithgar. Bwriad y Strategaeth hon a'r fframwaith y bydd yn ei gynhyrchu yw gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl hyn a sicrhau bod byw yn hirach yn golygu llawer mwy na dim ond ychwanegu blynyddoedd at fywyd. Dyma eich cyfle chi nawr i ddylanwadu ar y dyfodol i bobl hn ac i ddweud beth yw eich barn chi.